C.A. Welsh

Beth yw C.A.?

Mae Cocên Anhysbys (C.A.) yn frawdoliaeth o bobl sy'n rhannu eu profiad, eu cryfder a'u gobaith er mwyn helpu ei gilydd i wella o ddibyniaeth.

Os ydych chi'n chwilio am gymorth i roi'r gorau i ddefnyddio cocên neu unrhyw sylwedd arall sy'n newid y meddwl, mae croeso i chi yn ein cyfarfodydd ar-lein.

Yr unig ofyniad ar gyfer aelodaeth yw'r awydd i roi'r gorau i ddefnyddio cocên a phob sylwedd arall sy'n newid y meddwl. Does dim tâl na ffi am aelodaeth, ac mae pob cyfarfod yn gyfrinachol ac yn agored i unrhyw un sy'n dymuno gwella.

Mae cyfarfodydd C.A. ar-lein yn rhoi'r cyfle i gysylltu ag aelodau o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a thu hwnt. Gallwch wrando, rhannu pan fyddwch yn barod, a chael cefnogaeth gan bobl sy'n deall oherwydd eu bod wedi bod yno eu hunain.

Mae ein rhaglen adferiad yn seiliedig ar y Deuddeg Cam, sydd wedi helpu miloedd o bobl i ddod o hyd i ffordd newydd o fyw yn rhydd o ddibyniaeth.

P'un ai mai dyma'ch cyfarfod cyntaf neu eich bod yn dychwelyd at adferiad, bydd croeso cynnes i chi bob amser yn ein cyfarfodydd ar-lein.